Llywodraeth Cymru
Welsh Government

CANLLAWIAU, DOGFENNU

# Gwahodd gweinidogion

Mae gweinidogion yn credu bod cyfarfod â sefydliadau ac unigolion, mynd ar ymweliadau a mynd i ddigwyddiadau ledled Cymru yn rhan allweddol o'u swydd.

**Cyhoeddwyd gyntaf:** 16 Hydref 2018

**Diweddarwyd ddiwethaf:** 16 Hydref 2018

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/anfon-cais-am-gyfarfod-neu-wahoddiad-i-weinidog-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Felly, mae ganddynt ddyddiaduron llawn iawn. Yn anffodus, mae hyn yn golygu ei bod yn anodd iddynt fynd i bob digwyddiad a chyfarfod â phob unigolyn sydd am eu gweld.

Fodd bynnag, cyn gwahodd gweinidog i ddigwyddiad, gallech ystyried ai'r Gweinidog yw'r unigolyn mwyaf priodol.

O ran rhai digwyddiadau neu achosion sy'n delio â materion lleol, mae'n bosibl mai eich Aelod o'r Senedd (AS) etholaethol fydd yr unigolyn mwyaf addas. **Gallwch ddod o hyd i'ch AS ar wefan Senedd Cymru**.

O ran digwyddiadau sy'n ymwneud â materion heb eu datganoli, dylech ystyried gwahodd eich Aelod Seneddol.

I gael manylion pob un o'ch cynrychiolwyr etholedig, gallwch fynd i wefan **WriteToThem**.

# Dewis y gweinidog cywir

Mae'n bwysig gwahodd y gweinidog perthnasol. Gallwch ddod o hyd i bortffolio pob gweinidog ar ei dudalen bywgraffiad.

# Mwy nag un gwahoddiad

Yn yr un modd â gohebiaeth, pan fydd yr un gwahoddiad yn cael ei anfon at sawl gweinidog, mae'n debygol mai un ateb y byddwch yn ei dderbyn. Yn anffodus, ni fydd anfon gwahoddiad at sawl gweinidog yn golygu bod y gweinidog yn fwy tebygol o'i dderbyn.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/anfon-cais-am-gyfarfod-neu-wahoddiad-i-weinidog-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Rhybudd

Cofiwch fod dyddiaduron gweinidogion yn llawn iawn ac yn cael eu trefnu ymhell ymlaen llaw. Felly, mae'n annhebygol y bydd gweinidog yn gallu mynd i ddigwyddiad ar fyr rybudd.

## Argaeledd

Gan fod busnes y Llywodraeth a'r Senedd yn mynd rhagddo ar brynhawniau Mawrth a Mercher, er bod y dyddiaduron yn cael eu trefnu ymhell ymlaen llaw, bydd busnes y Llywodraeth a'r Senedd yn cael blaenoriaeth, ac efallai y bydd gweinidog yn tynnu'n ôl ar fyr rybudd. Rydym yn osgoi hyn pan fo'n bosibl ac yn rhoi gwybod ichi am newidiadau cyn gynted ag y bo modd. Er hynny, efallai y byddai'n well osgoi diwrnodau o’r fath.

## Llunio gwahoddiad

Dylai gwahoddiadau fod yn ysgrifenedig (naill ai drwy'r post neu ar e-bost) a dylent gynnwys cymaint o wybodaeth â phosibl.

I wneud cais am gyfarfod â'r gweinidog, dylech nodi'n glir beth yw'r diben, hy yr hyn yr hoffech ei drafod, gan gynnwys gwybodaeth gefndir.

Pan fyddwch yn gwahodd gweinidog i ddigwyddiad, dylech gynnwys yr wybodaeth a ganlyn:

- dyddiad ac amser
- lleoliad (gyda chod post llawn)
- hyd y digwyddiad

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/anfon-cais-am-gyfarfod-neu-wahoddiad-i-weinidog-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

- diben (ee agoriad swyddogol, cynhadledd [gan gynnwys thema])
- yr hyn yr hoffech i'r gweinidog ei wneud (ee rhoi araith [gan gynnwys ei thestun], ateb cwestiynau, ac ati)

Anfonwch agenda ddrafft os oes un ar gael.

Gellir dod o hyd i gyfeiriadau ar gyfer gohebu â'r gweinidogion ar dudalennau bywgraffiad y gweinidogion (cofiwch nad oes arnom angen copïau caled o wahoddiadau e-bost).

Neu, os nad ydych chi am anfon e-bost, gallwch anfon eich gwahoddiad at:

> **Teitl y gweinidog ...**
>
> Llywodraeth Cymru
> 5ed Llawr
> Tŷ Hywel
> Pierhead Street
> Bae Caerdydd
> CF99 1NA

## Ymatebion

Dylech dderbyn ateb cyn pen 17 o ddiwrnodau gwaith.

**Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch.**
Drllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/anfon-cais-am-gyfarfod-neu-wahoddiad-i-weinidog-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.